



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

PAM MAE ANGEN MWY O BROSIECTAU MAPIO YN GYMRAEG AC IEITHOEDD LLAI ERAILL

Gareth Morlais, Arbenigwr mewn Technoleg Iaith Gymraeg, [Llywodraeth Cymru](#)

Pam mae angen mwy o brosiectau mapio yn Gymraeg? Sut y byddwn ni'n parhau i ddefnyddio'r enwau lleoedd yn ein hiaith os na chânt eu hysgrifennu ar fapiau? Yn yr oes ddigidol, mae angen i hyn gynnwys mapiau rhyngweithiol ar ein dyfeisiau. Mae angen i'r fersiynau gwe fod yn fewnblanadwy a 'llithradwy' ac mae angen iddynt ddangos pwyntiau o ddiddordeb. Yn y papur hwn edrychwn ar rai o'r heriau – pa enwau i'w defnyddio, sut i ymdopi â gwahanol fersiynau o enwau o wahanol gyfnodau a lleoliadau, pa mor fanwl y dylid bod, ac ati.

Gan gymryd i ystyriaeth yr hyn y mae Cynllun Gweithredu Technoleg Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymraeg yn ei ddweud am fapiau yn Gymraeg, storïau a glywyd gan y timau sy'n gweithio ar Mapio Cymru, TRO (Teithiau Tywys Realiti Estynedig) gan Mynyddoedd Pawb a phrosiectau mapio Cymraeg eraill, fe drafodir effaith bosibl prosiectau mapio Cymraeg bach ar fapwyr mwy, a'r adnoddau a ddarparant ar gyfer mapiau mewn ieithoedd llai.

Ystyrir bylchau a chamau nesaf, a bydd cyfle i'r gynulleidfa rannu eu profiadau o fapio ac anghenion dwyieithog.

Bywgraffiad

Fel arbenigwr technoleg iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, bydd Gareth Morlais (@digitalst) yn datblygu polisi, yn gweithio gyda gweinidogion sy'n gyfrifol am ariannu arloesi a datblygu, ac yn ceisio darbwylo cwmnïau mawr i wneud mwy dros ieithoedd llai fel y Gymraeg. Roedd Gareth yn rhan o'r tîm a sefydlodd Capture Wales, prosiect storïa digidol arobryn gyda'r BBC, yng Nghaerdydd (2001-08) a helpodd bobl i adrodd eu storïau eu hunain, gan ddefnyddio eu harchifau cyfryngau eu hunain. Mae'n gyfarwyddwr y prosiect storïa digidol Breaking Barriers Community Arts, yn ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Darlledu Cymru, ac yn aelod o fwrdd ymgynghorol Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.



Llun gan @ashroplad